

Judith Paget  
Prif Weithredwr  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

22 Medi 2020

Annwyl Judith


Llongyfarchiadau mawr i chi ar agoriad Ysbyty Prifysgol y Faenor, a ddisgwylir i ddigwydd yn gynnar.

Yn diweddar, fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, rwyf wedi cael negeseuon sy'n mynegi pryder nad oes, ar hyn o bryd, unrhyw gyfleusterau ar gael i staff yn yr ysbyty newydd er mwyn iddynt orffwys. Deallaf fod yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau o'r fath, er ar lefel is na'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli ar safleoedd eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Mae'r cyfleusterau gorffwys hyn wedi bod yn hanfodol yn ystod y cyfnod diweddar wrth alluogi staff ar y rheng flaen i gynnig gwasanaethau o dan amgylchiadau eithriadol o heriol, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno y bydd parhau i ddarparu cyfleusterau digonol yn yr ysbyty newydd yn bwysig wrth helpu staff i ymdopi â'r cyfnod anodd sydd o'u blaenau yn ystod y gaeaf.

Felly, byddwn yn ddiolchgar am gael sicrwydd gennych y byddwch yn ymdrin â'r mater hwn ar fyrder.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS

**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

